# Cyngor Cymuned Ganllwyd

Cofnodion cyfarfod Medi 11fed 2019.

1.**Presennol**

Cynghorwyr C.Roberts,G.Hughes,C.Dixon,D.Morris a C.Edwards.

2. **Ymddiheuriadau**

Cyng P.Jenkins.

3.**Datgan diddordeb mewn unrhyw fater.**

Dim.

4.**Cofnodion mis Gorffenaf 2019.**

Cynigiwyd y cofnodion yn gywir gan Cyng Roberts eiliwyd gan Cyng Morris.

5.**Materion yn codi.**

Hen swyddfa bost- Mae'r graig a oedd yn rhwystro'r ffordd y tu allan i'r eiddo hwn wedi'i symud ac mae achosion o rwystro bellach wedi dod i ben.

Maes parcio toiled y Ganllwyd- Mae’r fan wedi’i symud o’r maes parcio. Clerc i ddiolch i’r Ymddiriedolaeth genedlaethol.

Cais cynllunio NP5/60/159 Mast yn ardal Maes yr Eglwys Wen.

Ni dderbyniwyd unrhyw wybodaeth bellach gan y Parc mewn perthynas â'r mater hwn. Clerc i siarad â Sara Thomas ynglyn a’r mater.

6.**Cynghorydd Sir.**

Ddim yn bresennol.

7.**Biniau Halen.**

Mae Cyngor Gwynedd angen gwybodaeth o pa finiau y mae'r cyngor eisiau eu llenwi â halen cyn diwedd mis Medi.

Os Bydd unrhyw Gynghorwr am i fin cael ei lenwi cysylltwch â'r clerc fel y gall wneud y trefniadau angenrheidiol.

8.**Toiled y Ganllwyd.**

Heb dderbyn fwy o wybodaeth gan Cyngor Gwynedd.

9. **Contract cyflogaeth clerc.**

Mae'r cyngor wedi cytuno y bydd contract y clerc yn aros yr un fath ar gyfer y flwyddyn nesaf. Bydd y contract yn cael ei arwyddo yn y cyfarfod nesaf.

10.**Cyfarfod gyda CNC ynglyn ymddygiad gwrth cymdeithasol.**

Yn dilyn cyfarfod rhwng Cynghorydd Dixon a'r clerc gyda Dylan a Robert Williams o CNC ynglyn a phroblemau yn ymwneud a ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal mae'r cyngor yn teimlo y dylid gwahodd cynrychiolwyr CNC i gwrdd â'r cyngor llawn i drafod y sefyllfa bresennol ac i drafod y ffordd ymlaen.

Clerc i drefnu'r cyfarfod.

11. **Mater ariannol.**

Awdit 2018/19.

Yn dilyn sylw a wnaed gan y BDO yn ystod yr archwiliad 2019/19 nad oedd gan y cyngor bolisi caffael yn ei reolau sefydlog a rhaid iddo sefydlu polisi ar gyfer caffael cyn diwedd y flwyddyn ariannol- trafododd y cyngor yr arsylwi a'r datganiadau a wnaed ganddynt.

Cytunodd y cyngor i'r canlynol;

Byddai'r rheolau sefydlog fel y'u cyflenwir gan Un Llais Cymru sy'n ymgorffori'r newidiadau a gyflwynwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn cael eu mabwysiadu.

Mae polisi'r ar gaffael yn cael ei lywio gan baragraff adran v o'r adran dan y penawd Rheolaethau Ariannol a Chaffael o fewn y rheolau sefydlog ac mae'r polisi bellach wedi'i fabwysiadu'n ffurfiol gan y cyngor.

Cyllid misol.

**Gorffenaf 2019**

| | |
|---|---|
| **Yn y Banc ar ddechrau'r Mis:** | **£6480.93** |
| **Derbyniwyd:** | |
| **Dim** | |
| **Taliadau:** | |
| **Cyflog/Paye** | **£100.00** |

**Evan Thomas & feibion** **£86.62**

**Yn y banc diwedd mis** **£6294.31**

**Awst 2019**

**Yn y Banc ar ddechrau'r Mis:** **£6294.31**

**Derbyniwyd:**

**Dim**

**Taliadau:**

**Cyflog/Paye** **£100.00**

**Zurich** **£437.37**

**Gwasanaeth tir/choed** **£936.00**

**Yn y banc diwedd mis** **£4820.94**

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg ariannol y cyngor.

Awdurdodwyd y taliadau canlynol gan y cyngor;

Llogi'r Neuadd £165.00.

Printer ink £19.50

Fydd Cyngor Gwynedd yn talu'r arain canlynol i gyfrif banc cyngor Ganllwyd yn y mis nesaf;

Praesept £1500

Ad daliad gwaith cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus £577.10

11. **Llythyrau & e byst.**

Cyngor Gwynedd yn rhoi manylion rhaglen gwaith yr ardal mis Awst 2019

12. **Unrhyw fater arall.**

Cyng Edwards- Problemau hefo rhodidendrum ar ochr y ffordd newydd rhwng Llanelltyd a Ganllwyd yn dal i barhau. Clerc i ail gysylltu a Cyngor Gwynedd.